

Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro

Tasgau Cyfoethog

Ardal: Ardal Goedwig	Grŵp Blwyddyn y CC: Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1
Amcan Dysgu: Cyfrif a chasglu gwrthrychau	
Maes Dysgu: Datblygiad Mathemategol Rhaglen Astudio <u>Datblygu Ymresymu Rhifyddol</u> Adnabod prosesau a chysylltiadau <ul style="list-style-type: none">Trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a'r ystafell ddosbarthDewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddioDewis a defnyddio ffeithiau rhif a strategaethau meddwl perthnasolDefnyddio gwybodaeth a phrofiad ymarferol yn sail wrth amcangyfrif. Cynrychioli a chyfathrebu <ul style="list-style-type: none">Defnyddio ieithwedd arferol ac ieithwedd fathemategol i siarad am eu syniadau a'u dewisiadau eu hunainDylunio a mireinio dulliau anffurfiol, personol o gofnodi, gan symud tuag at ddefnyddio geiriau a symbolau mewn brawddegau rhif. Adolygu <ul style="list-style-type: none">Dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion yn synhwyrol. <u>Defnyddio Sgiliau Rhif</u> <ul style="list-style-type: none">Cynnig amcangyfrif synhwyrol ar gyfer hyd at 10 o wrthrychau y gellir eu gwirio drwy gyfrif (Derbyn)Cynnig amcangyfrif synhwyrol ar gyfer nifer o wrthrychau y gellir eu gwirio drwy gyfrif (B1)Cyfrif hyd at 10 o wrthrychau'n ddibynadwy (Derbyn), hyd at 20 o wrthrychau'n ddibynadwy (B1)Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 10 o leiaf (Derbyn), hyd at 20 o leiaf (B1)	
Pennawd/Addas i blant Ydych chi'n gallu gwneud cinio blasus i lindysyn newynog?	
Meini Prawf Llwyddiant <ul style="list-style-type: none">Gwnewch bryd o fwyd i'r lindysynDyfalwch faint o bethau rydych chi wedi'u rhoi i'r lindysyn eu bwytaGwiriwch faint o bethau roddoch chi i'ch lindysyn mewn gwirioneddOs ydych wedi dyfalu bod mwy o bethau neu lai o bethau ar blât eich lindysyn mewn gwirionedd, trafodwch hyn.	
Beth i'w wneud:	

Dysgu blaenorol – Stori'r Lindysyn Newynog

Mae'r Lindysyn Newynog yn hoff iawn o'i fwyd. Gofynnwch i blant archwilio ardal i ddarganfod a chasglu amrywiaeth o wahanol fwydydd. Dangoswch pa fath o wrthrychau y gall/na all y plant eu casglu. Rhwch ddwy funud i'r disgyblion gasglu'r eitemau. Bydd y plant yn dod nôl â'r eitemau i greu pryd bwyd ar blât papur.

Gofynnwch i'r plant edrych ar eu platiau a dyfalu nifer yr eitemau yn gyfan gwbl. Aseswch allu'r plant i amcangyfrif yn briodol. Gofynnwch i'r plant weithio gyda phartner i gyfrif nifer gwirioneddol yr eitemau ar bob plât (cymysgwch alluoedd). A oedd y nifer yn fwy neu'n llai nag a feddyliont?

Ymestyn

- Dylai'r plant gymharu pob plât i ddyfalu pa blât sydd â'r pryd bwyd mwyaf/lleiaf i'r lindysyn newynog. Sawl eitem sydd ar y pryd bwyd mwyaf/sawl un sydd ar y pryd bwyd lleiaf? Cyfrifwch yr eitemau i wirio'r amcangyfrifon.

Adnoddau:

- Llyfr stori – Y Lindysyn Newynog.
- Stopwats
- Platiau papur.

